Datganiad i'r Wasg
2 Gorffennaf 2009

POBL ERYRI YN GWAHODD
EISTEDDFOD YR URDD I'R SIR YN 2012

Mewn neuadd orlawn yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, fe wahoddwyd yn unfrydol Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru i ranbarth Eryri yn y flwyddyn 2012. Dyma fydd wythfed ymweliad Eisteddfod yr Urdd gyda'r rhanbarth. Ymweliad cyntaf yr Eisteddfod oedd nôl yn 1930 yng Nghaernarfon, sef ail Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a'r ymweliad olaf oedd yn 1998 yn Llŷn ac Eifionydd. Bu'n Eisteddfod hynod lwyddiannus ac mae'r Urdd yn edrych ymlaen yn arw at gael dychwelyd i Eryri yn 2012.

Roedd Pwyllgor Rhanbarth yr Urdd yn Eryri eisoes wedi trafod y mater ac yn frwd iawn i'r Eisteddfod ddychwelyd, ac roedd Cyngor Gwynedd hefyd wedi datgan eu cefnogaeth.

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau, Urdd Gobaith Cymru:

"Mae gwirfoddolwyr yr Urdd a'r Cyngor eisoes wedi datgan eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i'r Ŵyl ac mae'r Urdd yn hynod o falch o ymateb trigolion yr ardal i wahodd yr Eisteddfod i Eryri yn 2012. Gwn fod yno fwrlwm a brwdfrydedd afieithus ymhlith plant, ieuenctid a gwirfoddolwyr y sir a byddant yn gweithio'n ddyfal i sicrhau Eisteddfod i'w chofio."

Nid oes penderfyniad eto ar union safle'r ŵyl oddi fewn i'r sir. Yn dilyn patrwm y blynyddoedd diweddar, fe fydd yr Urdd yn estyn gwahoddiad i bobl, tirfeddianwyr ac ardaloedd i gynnig safleoedd addas ar gyfer eu hystyried ar gyfer maes yr Eisteddfod.

Aled Siôn eto:

"Mae cael safle da yn allweddol i lwyddiant unrhyw Eisteddfod. Nid un ffactor sy'n gwneud safle da ond cyfuniad o ffactorau amrywiol ac rydym yn awyddus i glywed oddi wrth drigolion yr ardal ac yn eu gwahodd i gynnig lleoliadau ar gyfer Maes yr Eisteddfod."

Roedd Dyfed Edwards, Cadeirydd Cyngor Gwynedd yn barod iawn ei gefnogaeth. Meddai:

"Mae'r Cyngor yn falch bod yr Eisteddfod yn dychwelyd i Wynedd ac i ranbarth yr Urdd yn Eryri. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio yn agos gyda'r Urdd ac yn ffyddiog y cawn Eisteddfod arbennig. Mae cytundeb diweddar rhwng y mudiad a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, gyda'r holl awdurdodau lleol bellach yn cyfrannu yn flynyddol i'r ŵyl, yn gam mawr ymlaen ac yn fodd i'r Urdd a'r Cynghorau flaengynllunio tuag at y dyfodol."

Diolchodd Tudur Dylan Jones, Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau a chadeirydd y noson, rôl Cyngor Gwynedd i sicrhau'r cytundeb diweddar gyda'r Gymdeithas. Meddai:

"Mae'r cytundeb yn diogelu ffynhonnell ariannol bwysig ac yn sicrhau'r egwyddor bod yr Eisteddfod yn crwydro ac yn teithio o amgylch Cymru. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Gyngor Gwynedd am eu cefnogaeth i'r mudiad."

Y cam nesaf gydag Eisteddfod 2012 yw sefydlu'r pwyllgorau testun amrywiol. Bydd y cyfarfodydd cychwynnol ar 22 Medi 2009 yn Ysgol Syr Huw Owen.
Os hoffwch ragor o wybodaeth am Eisteddfod 2012 ewch i'r gwefan www.urdd.org/eisteddfod

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Llwyd, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613112, manonllwyd@urdd.org. Neu 07976 330360.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.